

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai ar nos Iau 14 Mawrth, 2019 am 1900

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones, Alun Thomas a Kevin Williams

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2019.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Yr hen A55 - problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. PCSO o swyddfa'r heddlu yn Fangor am fonitro'r sefyllfa, cyn gynted a bo modd.

Eglwys Llan - Y coed wedi cael eu trin, y safle'n edrych yn dda. Y clerch i anfon llythyr o ddiolch at Tad John Matthews.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y wal dal i ddisgwyl cael sylw, a'r ffordd angen ei lanhau. Y Clerch i holi am ddiweddariad ar y wal ac hefyd am yr arwydd. Mae arwyddion mawr melyn wedi eu gosod yr ardal, mewn llefydd anghyfleus. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Cynulliad a Chyngor Gwynedd i holi pam nad oeddynt wedi ymgynghori gyda'r Cyngor am yr arwyddion ac ble i'w lleoli.

Lôn Goed - y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle a chodi archeb ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol. Y gwaith heb ei wneud hyd yn hyn. Y ffordd angen ei ysgubo hefyd, y llefydd pasio yn enwedig. Cyngor Gwynedd wedi ein hysbysu 13 Mawrth bod y gwaith ar fin gael ei wneud.

Airfields of Britain Conservation Trust - y plac coffa wedi ei osod. Bydd angen trefnu digwyddiad i ddathlu'r plac gyda ysgolion lleol yn y Gwanwyn. Y Cyng. Megan Tomos i gysylltu gyda Ysgol Llanllechid, er mwyn i'r disgyblion gael amser i wneud gwaith ymchwil cyn ymweld â'r plac.

Allt Ty'n Hendre – twll yn y wal, ar yr ochr dde ar y ffordd i lawr. Angen hysbysu Stad Penrhyn.

Ffordd wrth Wern Bach – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Dyraniad o'r mynydd – cais wedi ei dderbyn gan I Hughes Morris. Angen mwy o wybodaeth. Y cais i'w ddal yn ôl ar hyn o bryd.

Diffibriliwr –angen holi'r gymuned am unrhyw syniad ble i'w leoli. Y Clerc i roi cais am syniadau ar dudalen 'Facebook' Ogwen.

Giât mochyn – adroddwyd bod angen adnewyddu'r giatiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd. Dim ymateb hyd yn hyn.

Palmant o Tal y bont i 'Gypsy Corner' – adroddwyd bod llawer o ddail ar y palmant. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i'w clirio. Rhywfaint o'r palmant wedi ei wneud, ond ddim y palmant o 'Gypsy Corner' fyny at Eglwys Maes y Groes. Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith.

Adolygiad Cludiant Cyhoeddus - Y Cyng. Dafydd Meurig am holi sut mae mesur teithiau bws sydd bellach ddim yn rhedeg. Yr ymateb a ddaeth gan Gyngor Gwynedd 'Dim ond y contractau rydym ni yn gyfrannu at sydd yn cael ei asesu. Mae gennym ddiwrnodau agored wrthi yn cael eu trefnu ar hyn o bryd a mae un yn Bangor a Bethesda. Pryd hynny mi fyddwn yn ystyried beth mae'r trigolion ei angen. Mae Talybont a Llanllechid i lawr gennyf i'w hystyried pan fyddwn yn edrych ar y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd'.

Parc Main – llwybr o Llwyn Penddu at Bryn Eithin – y bont pren wedi rhoi ac yn y ffoes, felly y llwybr methu cael ei ddefnyddio. Dim ymateb gan Cyngor Gwynedd hyd yn hyn.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Dim ymateb gan Cyngor Gwynedd.

Lon Ddŵr – tyllau mawr yn y ffordd sy'n arwain at Y Llechan. Y Cerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

Cyllid – penderfynwyd bod y Cadeirydd a dau aelod arall yn dod at ei gilydd i drafod gwariant. Y Clerc i wirio aelodau'r Is-bwyllgor Cyllid.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai

£25.00

Partneriaeth Ogwen-ffi Gofrestrfa Tir
Partneriaeth Ogwen – cyfraniad Llyfrgell

£6.00
£320.49

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – e-bost gan Gyngor Gwynedd-gorchymyn (gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd) ynglŷn a rhoi bae parcio anabl yn Dol Helyg, Tal y bont. Dim gwrthwynebiad.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a Diwrnod Agored Cludiant Cyhoeddus 16 Ebrill yng nghanolfan Cefnafes Bethesda. Nodwyd y dyddiad.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd. Y brydles presennol yn dod i ben Awst 2019. Ond gan bod hyn yn disgyn yng nghanol y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig ‘Tenancy at Will’ hyd at 31 Mawrth 2020. Y Cyngor yn cytuno mewn egwyddor, ond y Clerc i holi os oes cyllid ar gael am y flwyddyn gyntaf i helpu gyda’r trosglwyddiad.

Cyflwynwyd – llythyr gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen – arwydd ‘Bluebell Walk’ ar yr A5 ym Mharc Moch, Bethesda – yr aelodau yn cefnogi sylwadau’r Menter Iaith.

Cyflwynwyd – llythyr gan CND ynglŷn a claddu gwastraff niwclar yng Nghymru. Y Cyngor yn erbyn claddu gwastraff niwclar yng Nghymru.

Cyflwynwyd – e-bost gan y Cyng. Mike Parry ynglŷn a bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i ganoli holl wasanaeth fasgiwlar brys yn Ysbyty Glan Clwyd, yn lle yr uned penigamp enwog a llwyddiannus sydd yn bodoli ym Mangor eisioes. Y Cyngor yn cefnogi’r sylwadau.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gerallt Jones, Cyngor Gwynedd. Ymateb i’n cwyn o bobl sy’n ‘mynd y ffordd anghywir’ pan yn mentro oddi ar Lôn Goed i lawr i chwilio am y ddraig. Y Swyddog am ymweld a’r safle a thrafod gyda perchnogion y tir er mwyn gosod arwyddion i ddynodir llinell swyddogol. Y swyddog am fynd i ymweld cyn gynted a phosib.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gerallt Jones, Cyngor Gwynedd. Ymateb i’n cwyn o gŵn yn rhedeg yn rhydd ar Llwybr 30 Fferm y Gell, Llanllechid. Y Swyddog am ymchwilio’r safle yn y dyfodol agos.

Cyflwynwyd – llythyr gan Bartneriaeth Ogwen – Argyfwng Newid Hinsawdd. Y Cyngor yn cefnogi ac am ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl brosiectau’r Bartneriaeth.

Cyfarfod cae chwarae Tal y bont 12 Chwefror 2019 gyda Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor Gwynedd –heb glywed dim ers y cyfarfod a dim gwaith ar y ffosydd wedi ei wneud ychwaith.

8. Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/LB61D (*Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb*)

Tan y Garth Bach, Gerlan

Caniatad Adeilad Rhestredig i newid ffenestri tô gyda ffenestri tô math cadwraeth.

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

9. Materion Brys

Maes carafanau Ogwen Bank – nifer o goed, oedd i'w gweld o'r ffordd, wedi cael eu torri i lawr.

Y Mynydd – wedi cael diweddariad gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Fe fydd yr achos yn mynd o flaen y barnwr yn yr wythnosau nesaf.